



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2018 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd D Grehan Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd J Williams Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd W Owen Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd R Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd E Stephens

149 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees a J. Bonetto.

150 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**151 DEDDF HAWLIAU DEDDF 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI
DATBLYGU**

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

152 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

153 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2018 yn rhai cywir.

154 CYHOEDDIAD GAN BENNAETH Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth yr Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen Bolisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 10 yn ddiweddar, a bod y swyddogion wrthi yn ei hadolygu cyn trefnu'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer Aelodau Etholedig.

Eglurodd y swyddog fod yr adroddiadau y byddai'r Aelodau'n eu derbyn yn y cyfarfod yma wedi'u llunio cyn cyhoeddi dogfen Rhifyn 10, a'u bod nhw felly'n cyfeirio at Rifyn 9. Serch hynny, fydd hyn ddim yn effeithio ar unrhyw un o'r argymhellion gerbron yr Aelodau.

155 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

156 CAIS RHIF: 18/1037

Amrywio amodau 2 (cynlluniau a gymeradwywyd) a 6 (modd mynediad) o'r cais cynllunio 17/0632/10 a gymeradwywyd yn flaenorol (cyfeirnod apêl APP/L6940/A/17/3191412) i ganiatáu newidiadau i gwrtil blaen Calgarwyn, gan gynnwys ailddylunio ac adleoli garej, newidiadau i fynediad i gerbydau, adeiladu wal gynnal a man wedi'i dirlunio a newid y llinell ffin rhwng Calgarwyn a Phlot 3, Calgarwyn, Heol Cwmynymintion, Llwydcoed, Aberdâr.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Chris Cousins (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

157 CAIS RHIF: 18/1109

Newid defnydd o siop i siop gludfwyd A3, 66 Heol Gelligaled, Ystrad, Pentre.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod:

- Norma Dogan (Ymgeisydd)
- Cheryl Williams (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Ms Norma Dogan, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol E. Stevens, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gwrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Jones, yn gwrthwynebu'r datblygiad arfaethedig.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais uchod, yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio. Roedd hyn am fod gan yr aelodau bryderon ynglŷn â diogelwch ar y briffordd ac roedden nhw o'r farn nad oedd y cynnig yn cydymffurfio â Pholisi AW5. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

(NODWCH: Cafodd cynnig i gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, yn amodol ar ddiwygio Amod 5 i newid yr oriau agor o 17:00 o 09:00, ei wrthod)

158 CAIS RHIF: 18/1127

Garej ac ystafell ardd ar wahân, Coed Celyn, Tyla Garw, Tyle Garw, Pont-y-clun.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Russell Everett (Ymgeisydd). Cafodd bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Adeiladu y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo'r cais uchod, yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, gan eu bod nhw o'r farn na fyddai'r garej arfaethedig yn rhy fawr, a'i bod yn ddigon pell o eiddo cyfagos i beidio â chael effaith negyddol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal o'i chwmpas. Byddai hyn felly yn cydymffurfio â Pholisïau AW5 ac AW6. O

ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

159 CAIS RHIF: 17/1165

Cais i godi 2 annedd pâr gyda 2 ystafell wely, gan gynnwys tramwyfeydd, tir ger Stryd Brook, Aberpennar.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

(**Nodwch:** Roedd cynnig i gynnal ymweliad â'r safle er mwyn galluogi'r Aelodau i ymgyswngu'u hunain â'r materion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad yn aflwyddiannus)

160 CAIS RHIF: 18/1142

Amrywio amod 2 yng nghais cynllunio rhif: 17/0695/08: 1. Adolygu mynedfa bresennol y safle, 2. Symud y maes parcio ychwanegol ar y safle a'r man gollwng, 3. Symud yr Ardal Gemau Aml-ddefnydd a'r man garddio, 4. Cael gwared ar y fynedfa arfaethedig i gerbydau o ochr Graiglyd, a 5. Cael gwared ar yr addasiad arfaethedig i'r maes chwarae tarmacadam presennol ar gyfer parcio a gollwng, Ysgol Arbennig Maesgwyn, Heol Cwmdâr, Cwmdâr, Aberdâr.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan Gyfarwyddwr y Datblygiad, WD Lewis, Aberdâr a gododd bryderon ynglŷn â'r cais C2.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

161 CAIS RHIF: 18/1165

Newid yr hen bwll padlo sydd ddim yn cael ei ddefnyddio mwyach yn ardal chwarae â dŵr (chwarae 'sblash') Parc Aberdâr, Heol Glan, Gadlys, Aberdâr.

PENDERFYNODD yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

**162 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU
WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a dderbyniwyd, Ceisiadau wedi'u Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda Rhesymau, trwy'r drefn Ddirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer cyfnod 12 Tachwedd 2018 - 23 Tachwedd 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.05 pm

**Y Cynghorydd G Caple
Cadeirydd.**